OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2851 (Cy.248)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Gwnaed - - - -	*28 Medi 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Hydref 2007*
Yn dod i rym - -	*23 Hydref 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007.

(1) (2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Hydref 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 12.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006(**3**).

ystyr "Rheoliadau 2007 ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007(**4**).

Diwygio Rheoliadau 2006 a Rheoliadau 2007

3. Diwygir Rheoliadau 2006 yn unol â Rhan 2.

4. Diwygir Rheoliadau 2007 yn unol â Rhan 3.

RHAN 2

DIWYGIADAU I REOLIADAU 2006

5. Yn y testun Saesneg o reoliad 2(1A) o Reoliadau 2006, ar ôl y gair "his", mewnsoder "or her".

6. Yn y testun Cymraeg o reoliad 55(3)(ba) o Reoliadau 2006 hepgorer y gair "nad".

7. Yn y testun Cymraeg o baragraff 1(4)(ch) o Atodlen 1 i Reoliadau 2006, yn lle "blentyn ei briod neu ei bartner sifil;", rhodder "briod neu bartner sifil ei blentyn,".

RHAN 3

DIWYGIADAU I REOLIADAU 2007

Diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2007

8. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2007, yn y man priodol yn nhrefn y wyddor, mewnosoder—

"ystyr "blwyddyn bwrsari" ("*bursary year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs—

(a) mewn perthynas â hi y mae'r myfyriwr yn gymwys i gael unrhyw daliad o dan fwrsari gofal iechyd y cyfrifwyd ei swm drwy gyfeirio at ei incwm; neu

(b) mewn perthynas â hi y mae'r myfyriwr yn gymwys i gael unrhyw daliad o dan lwfans gofal iechyd yr Alban y cyfrifwyd ei swm drwy gyfeirio at ei incwm;

ystyr "cwrs dysgu o bell dynodedig" ("*designated distance learning course*") yw cwrs a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru dan reoliad 61C;";

ystyr "cwrs dysgu o bell presennol" ("*present distance learning course*") yw'r cwrs dysgu o bell dynodedig y mae person yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef;";

ystyr "lwfans myfyrwyr dysgu o bell anabl" ("*disabled distance learning students' allowance*") yw'r grant taladwy dan reoliad 61F;";

mae i "myfyriwr dysgu o bell cymwys" ("*eligible distance learning student*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 61A;".

9. Yn y testun Saesneg o reoliad 2(1A) o Reoliadau 2007, ar ôl y gair "his", mewnsoder "or her".

Diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2007

10. Yn rheoliad 4 o Reoliadau 2007—

(**3**) O.S.2006/126 (Cy.19), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1863 (Cy.196) ac O.S. 2007/2312 (Cy.183)
(**4**) O.S.2007/1045 (Cy.104) a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2312 (Cy.183)

(a) yn dilyn paragraff (6)(a), mewnosoder—

"(aa) at gwrs dynodedig a chwrs dysgu o bell dynodedig;";

(b) yn lle paragraff (12), rhodder—

"(12) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd bod yn ffoadur neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysblentyn i ffoadur—

(i) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol, mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben mewn perthynas ag ef neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn perthynas â chwrs rhan-amser dynodedig, cwrs dysgu o bell dynodedig neu gwrs dynodedig arall y mae ei statws fel myfyriwr rhan-amser cymwys, myfyriwr dysgu o bell cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo o'r cwrs hwnnw i'r cwrs presennol; neu

(ii) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs cymhwysol neu o gwrs cymhwysol arall y mae ei statws fel myfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo o'r cwrs hwnnw i'r cwrs cymhwysol y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef; ac

(b) ar y diwrnod cyn diwrnod dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, os bydd statws ffoadur A neu ei briod, ei bartner sifil, ei riant neu ei lys-riant, yn ôl y digwydd, wedi dod i ben ac nad oes hawl bellach i aros wedi'i rhoi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn yr ystyr yn adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymhwysol yn terfynu'n syth cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi.";

(c) yn lle paragraff (13), rhodder–.

"(13) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd bod yn berson â hawl i ddod i mewn neu i aros neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysblentyn i'r cyfryw berson—

(i) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol, mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben mewn perthynas ag ef neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn perthynas â chwrs rhan-amser dynodedig, cwrs dysgu o bell dynodedig neu gwrs dynodedig arall y mae ei statws fel myfyriwr rhan- amser cymwys, myfyriwr dysgu o bell cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo o'r cwrs hwnnw i'r cwrs presennol; neu

(ii) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs cymhwysol neu o gwrs cymhwysol arall y mae ei statws fel myfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo o'r cwrs hwnnw i'r cwrs cymhwysol y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef; a

(b) ar y diwrnod cyn diwrnod dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, os bydd y cyfnod a ganiateir i'r person sydd â hawl i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig wedi terfynu ac nad oes hawl bellach i aros wedi'i rhoi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn yr ystyr yn adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymhwysol yn terfynu'n syth cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi.".

Diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2007

11. Yn rheoliad 5 o Reoliadau 2007—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "i baragraff (2)", rhodder "i baragraffau (2), (3) a (3A)";

(ii) yn dilyn is-baragraff (b), mewnosoder—

"(bb) heb fod yn ddynodedig dan reoliad 61C;";

(b) ym mharagraff (2)—

yn lle "paragraff 6 neu 7", rhodder "paragraff 7 neu 8";

(c) yn dilyn paragraff (2), mewnosoder—

"(2A) Nid yw cwrs a ymgymerir fel rhan o Gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn gwrs dynodedig.";

(ch) yn dilyn paragraff (3), mewnosoder—

"(3A) Nid yw paragraff (1)(bb) yn gymwys pan fo rhywun sy'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â'r cwrs—

(a) yn fyfyriwr anabl; a

(b) yn ymgymryd â chwrs yn y Deyrnas Unedig ond nid yn ei fynychu oherwydd ni all ei fynychu am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd.".

Diwygio rheoliad 6 o Reoliadau 2007

12. Yn rheoliad 6(15)(a) o Reoliadau 2007, yn lle "lle nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trosi neu lle na fydd yn trosi", rhodder "lle nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trosglwyddo neu drosi neu lle na fydd yn trosglwyddo neu drosi", ac yn lle "dan reoliad 70(1),", rhodder "dan reoliad 8, rheoliad 61I, rheoliad 61J a rheoliad 70.".

13. Yn rheoliad 6 o Reoliadau 2007 —

(a) ym mharagraff (19) yn dilyn "cwrs gradd cywasgedig", mewnosoder "neu gwrs dysgu o bell dynodedig";

(b) ym mharagraff (20)(b) yn dilyn "phresenoldeb y myfyriwr ar y cwrs", mewnosoder "neu, yn achos cwrs dysgu o bell dynodedig, ymgymryd â'r cwrs".

Diwygio rheoliad 12 o Reoliadau 2007

14. Yn rheoliad 12, hepgorer paragraffau (4) ac (5).

Diwygio rheoliad 16 o Reoliadau 2007

15. Yn rheoliad 16 o Reoliadau 2007—

(a) yn lle paragraff (4), rhodder—

"(4) Yn achos cwrs dynodedig yng Ngholeg Heythrop, swm y grant at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw'r lleiaf o—

(a) £2,195; a

(b) y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.";

(b) yn lle paragraff (5), rhodder—

"(5) Yn achos cwrs dynodedig yn Ysgol Cerdd a Drama Guildhall, swm y grant at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw'r lleiaf o —

(a) £4,455; a

(b) y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.".

Diwygio rheoliad 23 o Reoliadau 2007

16. Ar ôl rheoliad 23 o Reoliadau 2007, mewnosoder—

"**23A.**—(1) Ymdrinnir â myfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo fel pe bai'n bresennol ar y cwrs dynodedig at ddiben cymhwyso ar gyfer y grantiau dilynol—

(a) grant ar gyfer dibynyddion;

(b) grant costau byw myfyrwyr anabl;

(c) grant cynhaliaeth neu grant cymorth arbennig;

(ch) grant addysg uwch.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) myfyriwr cwrs gradd cywasgedig;

(b) myfyriwr anabl—

(i) nad yw'n fyfyriwr cwrs gradd cywasgedig; a

(ii) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yn y Deyrnas Unedig ond nad yw'n bresennol am na all fod yn bresennol am reswm sy'n ymwneud â'i anabledd."

Diwygio rheoliad 30 o Reoliadau 2007

17. Yn rheoliad 30(1) o Reoliadau 2007—

(a) ar ddechrau is-baragraff (c), mewnosoder "yn ddarostyngedig i is-baragraff (i),";

(b) yn is-baragraff (d) yn lle "ac (ng)", rhodder "(ng) ac (h)";

(c) yn dilyn is-baragraff (dd), mewnosoder—

"(dda) ystyr "plentyn dibynnol" ("dependent child"), o ran myfyriwr cymwys, yw plentyn sy'n ddibynnol ar y myfyriwr;";

(ch) yn dilyn is-baragraff (ng), mewnosoder—

"(h) at bwrpas penderfynu a yw rhywun yn gynbartner i bartner i fyfyriwr cymwys, ystyr "partner" ("partner") o ran partner i fyfyriwr cymwys yw–

(i) priod i bartner myfyriwr cymwys;

(ii) partner sifil i bartner myfyriwr cymwys;